

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

nos Fawrth, Ebrill 6ed 2012

Presennol: Catrin Roberts (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Karl Jones, Huw Antur, Iorwerth Evans, Bryn Edwards, Y Swyddog Ariannol a'r Clerc

- 1066** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac estynnodd gydymdeimlad y Cyngor at Beryl Hughes Griffiths a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar o golli Mrs Elizabeth Jones.
- 1067** Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Fri Caradog Evans ac Alan Evans.
- 1068** Derbyniwyd datganiad buddiant gan Huw Antur ym mater cais cynllunio Glan Llyn.
- 1069** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Mawrth 6ed 2012 a chofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn dilyn y Noson Goffi ar 14 o Fawrth.
- 1070 Materion yn codi o gyfarfod mis Mawrth:**
- 1017.7 Mae'r gwaith o gofrestru'r Fynwent yn nwylo'r cyfreithiwr ac yn mynd yn ei flaen. Mae'r Clerc wedi arwyddo datganiad o ffeithiau am y fynwent.
- 1031.4 Pwmp y Llan- Clerc i sicrhau y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau
- 1031.5 Hysbysfwrdd y Llan - adroddodd Mr Arwel Lloyd Jones ei fod yn parhau i gael dyfynbrisiau. Cytunwyd y bydd angen clo arno ac y dylai fod o faint 6 darn A4
- 1036 Cynlluniau'r toiledau – ni dderbyniwyd ymateb o'r Llywodraeth hyd yn hyn ac mae'r Clerc wedi gofyn am gymorth Dafydd Elis Thomas i geisio cael ateb.
- 1055.1 Cytunwyd i gynnal is-bwyllgor y fynwent i asesu risg a materion eraill ym mynwent yr Eglwys.
- 1062 Cafwyd trafodaeth fuddiol gyda'r contractwr torri gwair a chytunodd i gynnwys torri gwair o gwmpas y gilfach goffa o fewn ei delerau. Diolchwyd iddo am ei barodrwydd.
- 1063.1 Cafwyd gwybodaeth na fydd etholiad yn debygol i'r Cyngor Cymuned, ac y bydd pob sedd wedi ei llenwi.
- 1063.2 Gan nad oedd y Swyddog Ariannol wedi gallu bod yn bresennol, cafwyd adroddiad gan y Clerc am y cwrs Un Llais Cymru yn y Bermo a fynychodd ar ran Cyngor Llangywer. Cytunwyd y bydd angen ffurfio is-bwyllgor cyllid yn y Cyfarfod Blyneddol a gofyn iddynt adolygu'r asesiad risg a rheolau cyllidol fel blaenoriaeth.
- 1066.3 Cafwyd ymateb gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd i'r cwyn am faw cŵn ym Maes y Pandy a sŵn yn ystod oriau anghymdeithasol. Mae'r anhapusrwydd am y sefyllfa yn parhau ac er bod y Cyngor yn gwerthfawrogi bod angen tystiolaeth

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

gadarn ar yr Heddlu a Thai Cymunedol Gwynedd cyn y gallant weithredu, mae nifer o'r trigolion ofn y bydd dial arnynt pe byddent yn gwneud cwyn ffurfiol. Cytunwyd i ofyn i'r Heddlu ac i gynrychiolydd o Dai Cymunedol Gwynedd ddod i'r cyfarfod nesaf er mwyn cael trafodaeth ar y ffordd ymlaen.

1066.2 Maen Llew - mae'r maen yn ei le ac mae plac gyda'r geiriau "Llew Cymro i'r carn" wedi ei archebu. Diolchwyd i deulu'r Garth am ganiatâd i osod y maen nepell o lwybr Yr Aran, ac i deulu'r Brynlllech am gyfrannu'r maen a'i chludo i'w le (gyda chymorth Arwel Lloyd Jones ac Owain Siôn Gwent). Cytunodd Karl Jones i osod y plac.

1066.3 Cafwyd ymateb gan y Parc Cenedlaethol y bydd y garafán yn hen iard lo Pengeulan yn cael ei symud; datganwyd ei bod wedi chwalu erbyn hyn.

1071 Noson Goffi: diolchodd y Cadeirydd i Mr Arwel Lloyd Jones am wneud y trefniadau. Diolchwyd i Mrs Gwen Jones am bresenoli ei hun ac i Mr David Meredith am anerchiad bywiog a chofiadwy. Diolchwyd hefyd i Ferched y Wawr a Sefydliad y Merched am baratoi lluniaeth hyfryd fel arfer. Cytunwyd i gyfrannu'r elw at Tenovus (£250) ac at elusen Clefyd yr Arennau (£250).

1072 Gohebiaeth:

1.Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth fod gwaith cwifer Erw Fron wedi ei orffen Derbyniwyd rhestr prisiau'r fynwent gan Gyngor Gwynedd

2.Parc Cenedlaethol Eryri – cytunwyd i gefnogi

- (i) NP5/71/BT435 Gosod polyn newydd ar dir wrth Landŵr
- (ii) NP5/71/39 Adeiladu bloc cysgu newydd yng ngwersyll yr Urdd, Glan Llyn
- (iii) NP5/71/436 Adeiladu estyniad i Ysgol O M Edwards
- (iv) NP5/71/L104G Estyniad mewnlenni i Drefechan

3.Un Llais Cymru: Derbyniwyd hysbysiad am gyfarfod y Pwyllgor ardal 21/3/12 Derbyniwyd "Y Llais", sef cylchgrawn Un Llais Cymru

4. Arall:

(i) Derbyniwyd llythyr gan gwmni cyfreithwyr Hugh James parthed y Nyrs; mae'r Clerc wedi ei ateb ac egluro'r sefyllfa bresennol

(ii) Nodwyd cais Llyfrau Llafar Cymru am wybodaeth o ddefnyddwyr posib

(iii) Derbyniwyd llythyr yn diolch am gyfraniad y Cyngor oddi wrth Gymdeithas Cantref, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Adran yr Urdd a Sioe Llanuwchllyn. Cytunwyd i longyfarch Adran yr Urdd ar lwyddiant yr aelodau yn yr Eisteddfodau yn ddiweddar.

(iv) Nodwyd ymgynghoriad y Comisiwn Ffiniau ar gyfer etholaethau seneddol

(v) Nodwyd llythyr gan yr Heddlu parthed dull newydd o gofnodi trosedd gwrth cymdeithasol

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

1073 Materion ariannol:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol a chytunwyd i glustnodi £1,500 yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer adnewyddu asedau a materion eraill.
- ii. Awdurdodwyd talu biliau'r mis: y Cyfreithwyr, cyfraniad blynyddol at waith Partneriaeth Penllyn, tâl aelodaeth Un Llais Cymru.
- iii. Cofrestru'r Cyngor fel Cyflogwr - nid oedd yn bosib cwblhau hyn oherwydd bod y system yn cael ei hadnewyddu dros wyliau'r Pasg. Bydd y Cyngor yn cael ei gofrestru'r wythnos nesaf.
- iv. Nodwyd arolwg Un Llais Cymru o daliadau i Gynghorwyr

1074 Partneriaeth Penllyn: Derbyn Adroddiad gan y Cynrychiolwyr a soniwyd am yr Holiadur Cymunedol ar wario'r grant o £100,000 ar ganolfan cymorth yn nhref'r Bala, trafodaethau gyda Swyddogion Gwynedd am gydlynu datblygiadau ym Mhenllyn, trafodaethau gydag Un Llais Cymru am symud ymlaen i fod yn endid annibynnol, cyfarfod gyda Dafydd Owen o Wasanaethau Cymdeithasol Gwynedd. Hefyd clywyd y gosodwyd y tendr cynnal a chadw rhai o lwybrau'r ardal; mae'r tendr yn awr yn cynnig 4 toriad y flwyddyn i Lwybr y Ceir (ac 1 toriad o'r gwrych). Derbyniwyd copi o Gytundeb y Partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd am flwyddyn arall.

1075 Ynni adnewyddol –cytunwyd i ohirio'r drafodaeth

1076 UFA

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth bod angen trwsio'r fainc ar lwybr yr Aran ac mae Arwel Lloyd Jones eisoes yn gwneud trefniadau.
- 2) Cytunwyd i gyfarfod ar Mai 8fed oherwydd y sefyllfa etholiadol. Bydd hwn yn Gyfarfod Blynyddol. Dyma felly oedd cyfarfod olaf Mr Bryn Edwards, Mr Iorwerth Evans a Mr Caradog Evans, ill tri wedi rhoi blynyddoedd lawer o wasanaeth i'r Cyngor Cymuned. Bydd colled fawr ar eu hôl, a cholli eu gwybodaeth leol amhrisiadwy. Dywedodd Mr Iorwerth Evans y bu'n ffrainc i wasanaethu'r Cyngor ac wrth ddiolch dywedodd mor amheuthun ydoedd na fu ffraeo erioed ar y Cyngor. Ateggodd Mr Bryn Edwards ei sylwadau a diolchodd y Cadeirydd yn gynnes iawn iddynt am eu gwaith a'u parodrwydd i fod o gymorth ymarferol ar hyd y blynyddoedd.